



Barddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif CY3 (Adran B)

Dr Hannah Sams

h.l.sams@abertawe.ac.uk



Yr arholiad

Llunio traethawd gan:

- **gyfeirio at nifer digonol o gerddi (o leiaf dair cerdd gan 3 bardd gwahanol) wrth ymateb i ofynion y cwestiwn**
- ddadansoddi'r arddull
- **gymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol**
- ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau

Ffocws y sesiwn heddiw

- Rhai o hanfodion llunio traethawd da dan amodau arholiad gan ganolbwyntio'n benodol ar strwythur paragraff
- Adolygu: tair cerdd
- Ymarfer mewn grwpiau : ymateb i gwestiwn sy'n dilyn patrwm cwestiwn arholiad

Hanfodion llunio
traethawd da dan
amodau arholiad

Meddyliwch
am y peth fel
achos llys!

Yn ôl nodiadau CBAC i athrawon:

‘Y gamp yn yr arholiad yw dewis a dethol y darnau mwyaf addas o’r cerddi yn eu cyfanrwydd i gefnogi eu safbwynt.’

- Osgoi trafod y cerddi fesul cerdd

Achos llys?!

Mae angen:

- i chi ddadlau rhywbeth
- tystiolaeth gadarn o'r cerddi trwy ddyfynnu
- strwythur trefnus a chlir
- ffocysu ar y cwestiwn

Corff y traethawd

- Paragraff i bob pwynt
- Tystiolaeth i gefnogi eich dadleuon – geiriau’r beirdd eu hunain sydd bwysicaf fel sail i unrhyw drafodaeth
- Cymharu a chyferbynnu’r cerddi
- Defnyddio ffeithiau’n bwrpasol
- Dadansoddi arddull yn effeithiol

Strwythur paragraff: Y Frechdan Flasus (addasiad o syniad Mererid Hopwood)

Creu brechdan

1. Bara: cyflwyno'r pwynt
2. Tomato: y pwynt yng nghyd-destun cerdd A DYFYNIAD NEU GYFEIRAD PENODOL
3. Ham: y pwynt yng nghyd-destun cerdd B DYFYNIAD/CYFEIRIAD PENODOL
4. CAWS: y pwynt yng nghyd-destun cerdd C DYFYNIAD/CYFEIRIAD PENODOL
5. Bara: casgliad am y pwynt



Cam 1: Dadansodddi'r cwestiwn

Enghraifft o gwestiwn

Mae nifer o feirdd y buoch yn astudio eu cerddi yn ymdrin â thema dirywiad mewn cymdeithas. Cyfeiriwch at gerddi 'Y Meirwon', 'DIY' a 'beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd' gan gymharu ymateb y beirdd i'r thema. Dylech gyfeirio at arddull y beirdd.

YMARFER:


1. Beth yw enwau'r beirdd a luniodd y cerddi hyn?
2. Darllenwch y cwestiwn a thanlinellwch elfennau pwysicaf y cwestiwn.

- Mae **nifer o feirdd** y buoch yn astudio eu cerddi yn ymdrin â thema **dirywiad mewn cymdeithas**. Cyfeiriwch at gerddi 'Y Meirwon', 'DIY' a 'beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd' gan **gymharu ymateb** y beirdd i'r thema. Dylech gyfeirio at **arddull** y beirdd.

Adolygu'r cerddi

DIY – Grahame Davies

- Bardd, nofelydd, beirniad llenyddol
- O Wrecsam yn wreiddiol ond bellach yn byw rhwng Caerdydd a Llundain



Adennill Tir

- *Adennill Tir* (Barddas, 1997) – cyfrol gyntaf o farddoniaeth
- Adolygiad Gwyn Erfyl o *Adennill Tir* yn *Llais Llyfrau*:
'Cynddaredd, eironi a dadrithiad sydd yma wrth weld a theimlo'i gwmwd diwydiannol yn ymddatod, diwylliant aliwn a dieithrwch iaith yn dibersonoli ac yn llwydo'r lle.'

Cerdd am beth yw hi felly?

- Tynnu ar ei brofiadau o fyw yng nghymoedd y de ers degawd.
- 'DIY' = Do It Yourself
- Hunanoldeb cymdeithas heddiw
- Mae'r bardd yn tystio i newid o fewn y gymdeithas y maent yn rhan ohoni.
- Trosiad yw'r ddelwedd o adeiladu adeilad sy'n dwyn i gof englyn adnabyddus R. Williams Parry i Neuadd Goffa Mynytho ym Mhen Llŷn :

Adeiladwyd gan dlodi, — nid cerrig

Ond cariad yw'r meini;

Cydernes yw'r coed arni,

Cyd-ddyheu a'i cododd hi.

'beaufort,
blaenau
gwent,
mewn
gwyrdd'

gan Ifor ap
Glyn

- *Map yr Underground*
- Cerdd sy'n sôn am y dirywiad a fu yn ardal Beaufort sef pentref ym Mlaenau Gwent ers i ddylanwad y diwydiant dur bylu yn yr ardal.
- Mae i'r gerdd hon neges obeithiol

'Y Meirwon' - Gwenallt

1899-1968

Bardd, beirniad ac ysgolhaig


Mewn sgwrs ag W. R. P. George yn Hydref 1968 dywedodd mai'r gerdd hon, o'i holl waith, a roddodd y boddhad mwyaf iddo.

Eples (1951)

Roedd Gwenallt yn byw yn Aberystwyth ar y pryd ac yn ei hysgrifennu gan edrych yn ôl a chynnig dehongliad ar y gymdeithas y magwyd ef ynddi.

Cyflwynir cyfres o ddarluniau o'r de diwydiannol (fel sy'n wir am nifer o'i gerddi e.e. 'Colomennod', 'Morgannwg').

<https://www.youtube.com/watch?v=2vEPOgeZgrA>



Sut mae'r beirdd dan sylw yn ymdrin â'r thema dirywiad mewn cymdeithas?

Ystyriwch eich syniadau cychwynnol mewn perthynas â'r cwesitwn isod:

Mae **nifer o feirdd** y buoch yn astudio eu cerddi yn ymdrin â thema **dirywiad mewn cymdeithas**. Cyfeiriwch at gerddi 'Y Meirwon', 'DIY' a 'beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd' gan **gymharu ymateb** y beirdd i'r thema. Dylech gyfeirio at **arddull** y beirdd.

Sut mae ymateb y beirdd yn debyg neu'n wahanol?

- DIY – Dirywiad gan fod pawb yn fwy hunanol
- 'beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd' – Dirywiad ac yna adferiad
- 'Y Meirwon' – Effeithiau erchyll diwydiant sy'n gyfrifol am ddirywiad y gymdeithas hon am eu bod yn colli ffydd mewn crefydd a sosialaeth fel ei gilydd.

Strwythur paragraff: Y Frechdan Flasu

Creu brechdan

1. Bara: cyflwyno'r pwynt
2. Tomato: y pwynt yng nghyd-destun cerdd A
DYFYNIAD NEU GYFEIRAD PENODOL
3. Ham: y pwynt yng nghyd-destun cerdd B
DYFYNIAD/CYFEIRIAD PENODOL
4. CAWS: y pwynt yng nghyd-destun cerdd C
DYFYNIAD/CYFEIRIAD PENODOL
5. Bara: casgliad am y pwynt

CYFEIRIWCH AT DECHNEG AU ARDDULL WRTH YMATEB



1. Sut mae'r beirdd yn cofnodi'r dirywiad mewn cymdeithas trwy gyfeirio at grefydd?

- 'DIY' – Nid yw hyn yn amlwg yn y gerdd hon.
- 'beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd' – Nid yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at grefydd. Rhywbeth sy'n perthyn i'r hen genhedlaeth:

'Yma [yng nghapel Carmel sydd bellach ar gau] mae'r Gymraeg yn llwyd'

- 'Y Meirwon' – Agwedd chwerw ac anobeithiol at grefydd

'Golectau gwrthryfel coch a litanïau trais'

Dioddefaint y Groes

Sul y Blodau

2. Sut mae'r beirdd yn cofnodi'r dirywiad mewn cymdeithas trwy gyfeirio at iaith?

- 'DIY' – Nid yw'r thema hon yn amlwg yn 'DIY'
- 'beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd' – cofnoda lfor ap Glyn y newid sydd wedi bod yn yr iaith yn yr ardal. Awn ar daith emosiynol gyda'r bardd.
- 'Y Meirwon' – nid yw hyn yn amlwg iawn yn y gerdd hon. Fodd bynnag, gellid dadlau bod benthyciadau Saesneg e.e. Wtopia a *silicosis* vs yr iaith Feiblaidd mewn ambell fan yn awgrym o'r dirywiad ieithyddol.

3. Agweddau at ddiwydiant?

- 'DIY' – Effaith colli diwydiant ar y gymdeithas
- 'beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd' :
 - lleoliad y gerdd a nodir yn y teitl
 - ers diflaniad diwydiant mae'r iaith yn pylu hefyd
- 'Y Meirwon' – Fel 'DIY' mae diwydiant yn bwysig yn y gerdd hon hefyd

4. Sut mae'r beirdd yn defnyddio delweddau i ddangos y dirywiad mewn cymdeithas?

- 'DIY' – Amlygu'r duedd o weithio fel unigolion yn hytrach na gweithio fel un yw'r ddelwedd a gynigiodd sbardun i'r gerdd.
- 'beaufrot, blaenau gwent, mewn gwyrdd' – Delwedd o'r Gymraeg fel planhigyn yn y fynwent yn ennill tir ac yn cael maeth o hen draddodiadau a hen egni Cymraeg yr ardal.
- 'Y Meirwon' – Mae nifer o ddelweddau posibl yn hon, yn wahanol i 'DIY' a 'beaufrot, blaenau gwent, mewn gwyrdd' nid oes un brif ddelwedd.

Pob lwc!

Adolygwch a dangoswch eich gwybodaeth ar y papurau arholiad!

Cysylltwch!

h.l.sams@abertawe.ac.uk